




Adnoddau Cefnogi

Techniquest
Stryd Stuart
Caerdydd
CF10 5BW

F: 029 20 475 475
www.techniquest.org



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o'r Sioe

Mae Delyth y ddraig wedi cyffroi ynglŷn â mynd i'r syrcas. Ond wedi iddynt gyrraedd yno mae ei mam yn tisian fel taran ac yn chwythu'r syrcas i lawr. Mae popeth yn llanast ac mae gan Delyth ras yn erbyn y cloc i wneud popeth yn iawn. Ymunwch â Delyth y ddraig a defnyddio'ch sgiliau mathemateg i helpu pawb yn y syrcas fel y gall y sioe fynd yn ei blaen. Yn y sioe ryngweithiol hon bydd disgyblion yn archwilio pwysau a mesuriadau, trefnu, siapiau 3D, dilyniannau rhifau a mathemateg hwyliog. Gall disgyblion hyd yn oed gymryd rhan ar y llwyfan gyda Delyth a phrofi eu sgiliau datrys problemau.

Mae'r sioe hon wedi cael ei datblygu'n llawn yn unol â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac mae'n cael ei hategu gan weithgaredd dilynol sy'n defnyddio rhai o arddangosiadau ymarferol Techniquet.



Hawlfraint

Gall athrawon atgynhyrchu'r deunyddiau canlynol heb dorri hawlfraint, cyn belled y gwneir copïau ar gyfer defnydd yn eu hysgolion eu hunain. Rhaid cael caniatâd Techniquet cyn atgynhyrchu'r deunyddiau hyn at unrhyw bwrpas arall.

Cydnabyddiaethau

Diolch yn arbennig i ddisgyblion ac athrawon Ysgol Gynradd Eagleswell, Ysgol Gynradd Llanfair, Ysgol Gynradd Ynys Barri ac Ysgol Gynradd Parc Jenner am eu cefnogaeth a'u syniadau.


Defnyddio'ch Ffotograffau

Gan weithio mewn grwpiau, gofynnwch i'ch disgyblion ddewis un ffotograff o'r rhai a dynnwyd ohonynt yn ystod eu hymweliad. Dylai'r disgyblion gyflwyno'r llun o'u dewis i'r dosbarth a disgrifio'r hyn sy'n digwydd yn y ffotograff. Defnyddiwch y cwestiynau hyn i gael mwy o wybodaeth gan y disgyblion:

- Pwy sydd yn y ffotograff hwn?
- Ffotograff o beth yw hwn?
- Pam ydych wedi dewis y ffotograff hwn?
- O oes rhywun wedi canfod rhywbeth tebyg mewn ffotograff arall?
- Beth wnaethoch ei fwynhau am yr arddangosyn hwn?
- A oes cysylltiad rhwng yr arddangosyn hwn a'r sioe a welsoch? Beth?
- Beth arall a welsoch yn Techniquest?
- Beth a ddysgoch ar eich ymweliad?
- Pa ran o'r ymweliad oedd orau gennych chi? Pam?



Llwybr Arddangos




Ym mhob un o'r ffotograffau canlynol, mae Delyth yn gofyn cwestiwn sy'n gysylltiedig â'r sioe neu'r arddangosyn.

- Rhewch sialens i'r disgyblion ateb y cwestiynau.
- Gofynnwch i'r disgyblion a wnaethant ddefnyddio'r arddangosyn yn y ffotograff yn ystod eu hymweliad. Beth wnaethant ddarganfod amdano?
- Pa arddangosiadau eraill wnaethant ganfod oedd yn gysylltiedig â'r sioe? Beth wnaethant ddarganfod wrth archwilio'r rhain?
- Gall y disgyblion wneud llun o'u hoff arddangosyn. Gallant ychwanegu swigod meddwl, fel y rhai yn y ffotograff o Delyth, i egluro pam eu bod yn ei hoffi.

Gall disgyblion e-bostio eu sylwadau a'u lluniau o'u hamser yn Techniquet i:

DelythDragon@techniquet.org

Bydd Delyth yn dewis ei hoff e-bostion a ffotograffau a bydd y rhain yn cael eu harddangos yn Techniquet. Cofiwch chwilio amdanynt y tro nesaf y byddwch yn ymweld.



Ar ba rai o'r peli hyn y
mae odrifau?
Ar ba rai y mae
eilrifau?




Pa siapiau allwch
chi eu gweld?
Pa liwiau allwch
chi eu gweld?



Beth sy'n digwydd
pan wyf yn gollwng
y rhaff? Pam?

Pa siapiau allwch
chi eu gweld?
Pa siapiau eraill ydych
chi yn eu hadnabod?



Clown Plât Papur

Beth sydd ei angen arnoch:

- Platiau papur
- Ffyn lolipop
- Papur crêp
- Pompomau
- Creonau
- Ffyn glud
- Pren mesur
- Tâp gludiog



- Allwch chi wneud mwgwd clown gan ddefnyddio 12 o ddarnau gwahanol?
- Pam wnaethoch ddewis y darnau hyn?
- Petaech yn gallu ychwanegu 2 ddarn arall, beth fydddech yn ei ychwanegu? Pam?
- Pa siapiau allwch chi eu gweld yn wyneb eich clown?





Mynd am Bicnic!

Meddylwch am:

- Ble rydych am gael eich picnic?
- Pryd ydych am ei gael?
- Faint o'r gloch fydd yn dechrau?
- Beth fyddwch yn ei fwyta?
- Beth fyddwch yn ei yfed?
- Beth arall fydd ei angen arnoch?
- Ar beth fyddwch yn eistedd?
- O beth fyddwch yn bwyta?
- A fydd yna thema i'ch picnic? Beth fydd y thema?
- Pwy fydd yn cael gwahoddiad?

Mae Delyth yn mynd â phicnic gyda hi i'w fwyta yn y syrcas. Mae'n mynd gyda thri o'i ffrindiau.

- Hoffai Delyth fynd ag afalau gyda hi. Sawl afal ddylai Delyth fynd gyda hi fel bod pawb yn cael un?
- Mae Delyth hefyd yn mynd ag wyth losinen gyda hi. Sawl un fydd pawb yn ei gael fel bod pawb yn cael yr un faint?
- Pam fod rhannu'n bwysig?



Cwrs Rhwystrau


Beth sydd ei angen arnoch:

- Offer o wahanol siapiau, megis cylchoedd, meinciau, blociau, peli, ciwbiau etc.
- Man agored.



Cyfarwyddiadau athrawon

- Gosodwch y rhwystrau fel eu bod mewn dwy linell.
- Gofynnwch i'r disgyblion gyfrif sawl rhwystr sydd yna.
- Gofynnwch i'r disgyblion enwi siapiau'r rhwystrau. Pa siapiau eraill maent yn eu hadnabod?
- Rhannwch y dosbarth i ddau dîm.
- Dylai'r timau gystadlu yn erbyn ei gilydd i gwblhau'r cwrs rhwystrau yn yr amser cyflymaf.
- Gofynnwch i'r disgyblion amseru'r timau. Pa unedau ydym yn eu defnyddio ar gyfer amser?
- Gellid cofnodi amser unigol ar gyfer y disgyblion fydd yn cwblhau'r cwrs. Gallai'r disgyblion roi'r rhain mewn siart syml i'w hadolygu.



Curriculum Links

	Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	Datblygiad Mathemategol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd	Datblygiad Corfforol	Datblygiad Creadigol
Sioe theatr wyddoniaeth Yn Y Syrcas	✓	✓	✓	✓	✓	
Llwybr arddangos yn Techniquet	✓	✓	✓	✓	✓	
Peli jyglo - gweithgaredd llawr yn Techniquet	✓	✓	✓	✓	✓	
Stiltiau - gweithgaredd llawr yn Techniquet	✓	✓		✓	✓	
Pos 5 - gweithgaredd llawr yn Techniquet	✓	✓	✓	✓	✓	
Clown Plât Papur - gweithgaredd ôl-sioe		✓		✓	✓	✓
Mynd am Bicnic! - gweithgaredd ôl-sioe	✓	✓	✓	✓		
Cwrs Rhwystrau - gweithgaredd ôl-sioe		✓	✓	✓	✓	